# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd o Fai 2018 am 7.50 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Dai Evans, Helen Evans, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Denfer Morgan (Clerc).

**127 Ymddiheuriadau a Materion Personol**

Ymddiheurodd y Cynghorydd John Lumley am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod a nodwyd ei fod allan o'r ysbyty ac yn gwella.

**128 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Ebrill 2018.

**129 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Cofnod 114 – roedd y goeden ar Lôn Puw wedi'I dorri a'i glirio. Roedd trefniadau mewn llaw i symud y goeden oedd ar lawr llwybr Tir Bach.
b) Cofnod 118 – newidiau i drefn ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd y cynlluniau wedi'u cyhoeddi a'r cyfnod o ymgynghori wedi dechrau,gyda sawl digwyddiad cyhoeddus wedi eu trefnu.
c) 119 a) – arwyddion ffyrdd. Adroddodd y Clerc ateb y Cyngor Sir i'r materion a godwyd gan y Cyngor fel a ganlyn:-
   - yr arwyddion ar groesffordd Tyglyn ac yn y Groesffordd i'w hail-godi
   - yr arwydd ger Derwen Gam i'w ail-baentio
   - nodwyd yr ateb am beidio a gosod arwydd yn dangos y ffordd i Gilcennin ar y tro ger Tŷ Mawr.
d) Llefydd pasio – Cilcennin. Penderfynwyd dynodi'r llefydd ar y map ar gyfer y Cyngor Sir.

**130 Cais Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gais Cynllunio A180286&287 Rhosyn Bach, Cilcennin. Cadw fel annedd a siediau heb unrhyw fusnes prosesu coed.

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

**131 Materion Cyllidol**
**PENDERFYNWYD** nodi derbyn taliad cyntaf Praesept 2018-19 yn y swm o £427.10, sef y swm net ar ôl tynnu i ffwrdd cost Etholiad 2017 yn y swm o £839.57.

**132 Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl'.**

**PENDERFYNWYD** nodi Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' a oedd yn argymell lleihau'r nifer o Gynghorau Sir i wyth.

.

**133 Ymchwiliad Llywodraeth San Steffan i'r Targed o ddileu y defnydd o nwyddau plastig a ddefnyddir unwaith yn unig erbyn 2045.**

Nodwyd fod Llywodraeth San Steffan yn galw am dystiolaeth am sut y gellir godi tâl neu gyflwyno newidiadau i'r system drethi er mwyn cynorthwyo gyda chyflawni'r targed o wneud i ffwrdd â'r defnydd o nwyddau plastig a ddefnyddir unwaith yn unig.

**134 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) Cais Eisteddfod Ciliau Aeron am gyfraniad ariannol. Gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf.
b) Arosfeydd bysus Crossway. Dywedodd y Clerc fod y cais am Grant Cymunedol wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.
c) Trafodwyd y sefyllfa diweddaraf o ran newid yr Aelodau gyda'r awdurdod i lofnodi sieciau a phenderfynwyd gofyn i'r Clerc gael eglurhâd o'r sefyllfa.
d) Cyfeiriodd y Cynghorydd Dai Evans at gynlluniau Ffrindiau Ysgol Gynradd Cilcennin i atgyweirio'r portacabin. Nodwyd fod angen iddynt fwrw 'mlaen yn y ffordd swyddogol.
e) Cyfeiriodd y Cynghorydd Helen evans at y canlynol:
    - fod coesau arwyddion Llanerchaeron yn rhydu. Nodwyd taw eu cyfrifoldeb nhw oedd y ddau arwydd.
    - datganodd, er bod esboniad llawn wedi'i roi gan y Cynghorydd Sir Marc Davies yn y cyfarfod diwethaf, fod pobl o hyd yn anfodlon gyda'r gwaith a wnaed gan y Cyngor Sir o osod arwyneb tarmac newydd ar ffordd breifat yng Nghiliau Aeron.
    - Cynllun y Cyngor Sir ar gyfer Safle Gwastraff Cartref Rhydeinon. Dywedodd y Cynghorydd Sir Marc Davies fod y mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu perthnasol ac nad oedd penderfyniad wedio'i gymryd hyd yn hyn.
f) Cyfeiriodd y Cynghorydd marc Davies fod yna Adolygiad o Ysgol Gynradd Cilcennin ar y gweill.
g) Nodwyd llythyr oddi wrth drefnwyr Dathliadau Cymru-Ohio 2018 am gyfraniad hael y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 pm